AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

# Agweddau teithio: prif ganlyniadau Mawrth i Awst 2025 (dros dro)

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r chwe mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 3,000 o ymatebion gan bobl ledled Cymru. Fe'u cyhoeddir fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar agweddau teithio. Wrth hyn, rydym yn golygu barn ac agweddau ymatebwyr ar bynciau fel eu bodlonrwydd a'r teimlad o groeso a wnaethant brofi wrth ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio. Mae hefyd yn cynnwys pa mor aml y maent yn defnyddio gwahanol ddulliau teithio.

Mae ATCC yn arolwg newydd a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd diffiniadau gwahanol a ddefnyddir, methodolegau arolwg gwahanol neu wahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o setiau sampl o fis Mawrth i fis Awst 2025. O'r herwydd, gallant gael eu heffeithio gan batrymau tymhorol mewn ymddygiad teithio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ansawdd yn ein Hadroddiad Ansawdd.

Defnyddiwyd nifer o dermau penodol i drafnidiaeth yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi cynhyrchu dogfen ddiffiniadau i gynorthwyo dealltwriaeth.

## Prif ganfyddiadau

- Y dulliau teithio a ddefnyddiwyd amlaf oedd y car, a cherdded ac olwynio, gyda 82.6% a 69.5% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r dulliau hyn o leiaf unwaith yr wythnos yn y drefn honno.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar eu taith gyffredinol a'u diogelwch ar draws pob dull teithio. Roedd bodlonrwydd cyffredinol ar y daith yn amrywio o 65.7% i'r rhai a feiciodd i 88.7% i'r rhai a deithiodd mewn tacsi.
- Roedd bodlonrwydd ar ddiogelwch yn amrywio o 59.1% i'r rhai a feiciodd i 91.3% i'r rhai a ddefnyddiodd dacsi.
- Dywedodd dros 90% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo croeso wrth ddefnyddio'r bws (92.3%) ac wrth gerdded ac olwynio (91.2%) ac ychydig o dan 90% oedd yn teimlo croeso wrth ddefnyddio'r trên (89.8%). Dywedodd 67.1% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo croeso wrth feicio.
- Nododd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd (66.3%) eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu diogelwch wrth feicio o'i gymharu ag ymatebwyr benywaidd (44.0%).


# Amlder Teithio

Gofynnwyd i bob ymatebydd pa mor aml y gwnaethon nhw deithio gan ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio dros y 12 mis diwethaf.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos (82.6%). Dim ond 7.0% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio car o gwbl.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cerdded neu'n olwynio o leiaf unwaith yr wythnos (69.5%). Dywedodd 18.4% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwynio o gwbl.
- Dywedodd 76.7% o'r ymatebwyr nad oeddent yn beicio o gwbl, tra bod 9.9% yn dweud eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos.
- Roedd 16.9% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos, tra bod 45.1% o'r ymatebwyr wedi nodi nad oeddent yn defnyddio'r bws o gwbl.
- Mae 9.3% o'r ymatebwyr yn teithio ar y trên o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 31.4% nad ydynt yn teithio ar y trên o gwbl.

## Amlder teithio dros y 12 mis diwethaf

Ffigur 1: Canran yr ymatebwyr a nododd pa mor aml y gwnaethon nhw ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio dros 12 mis, Cymru, 2025



Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn teithio mewn car, cerdded ac olwynio, gan ddefnyddio bws, beic, trên, tacsi a thrafnidiaeth gymunedol o leiaf unwaith yr wythnos, o leiaf unwaith y mis a dim o gwbl o fewn y 12 mis diwethaf. Y car oedd y dull teithio a nodwyd amlaf a ddefnyddiwyd o leiaf unwaith yr wythnos, sef 82.6% o'r ymatebwyr. Yna cerdded ac olwynio oedd 69.5%. Y trên oedd y dull teithio a nodwyd amlaf a ddefnyddiwyd yn fisol neu unwaith bob cwpl o fisoedd, sef 33.2%, ac yna tacsi, sef 25.1%. Nododd 85.3% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol o gwbl, a nododd 76.7% nad oeddent yn beicio o gwbl.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Amlder teithio

Nodyn: Nid yw ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

# Amlder teithio yn ôl demograffeg

- Roedd cyfran yr ymatebwyr benywaidd a nododd eu bod yn cerdded ac yn olwynio y rhan fwyaf o ddyddiau (37.9%) yn is na'r ymatebwyr gwrywaidd (42.4%). Nododd 19.3% o ymatebwyr benywaidd nad oeddent yn cerdded nac yn olwynio o gwbl, o'i gymharu â 17.7% o ymatebwyr gwrywaidd.
- Yn ôl rhyw, dywedodd ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn beicio'n amlach nag ymatebwyr benywaidd. Dywedodd 5.0% o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn beicio ar y rhan fwyaf o ddyddiau o'i gymharu ag 1.6% o ymatebwyr benywaidd. Dywedodd 69.2% o ymatebwyr gwrywaidd ac 83.9% o ymatebwyr benywaidd nad oeddent yn beicio o gwbl.
- Nododd 54.6% o ymatebwyr benywaidd eu bod yn defnyddio car ar y rhan fwyaf o ddyddiau o'i gymharu â 58.6% o ymatebwyr gwrywaidd. Roedd cyfran yr ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd yn debyg o ran teithio mewn car ar gyfer pob amlder arall.
- Roedd cyfrannau'r ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd wedi'u rhannu'n gyfartal ar gyfer teithio ar y bws ac ar y trên ar gyfer pob amlder defnydd.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr anabl a nododd nad oeddent yn teithio drwy gerdded nac olwynio, na chan ddefnyddio beic, trên na char yn uwch na'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl. Roedd hyn yn amrywio o wahaniaeth o 4.1 pwynt canran ar gyfer y car i wahaniaeth o 16.3 pwynt canran ar gyfer y trên.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr anabl a deithiodd ar y bws yn debyg i gyfran yr ymatebwyr nad oeddent yn anabl a deithiodd ar y bws (roedd 4.9% o ymatebwyr anabl a 3.5% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn teithio ar fws ar y rhan fwyaf o ddyddiau).

# Bodlonrwydd ar y daith gyffredinol


Dim ond i ymatebwyr a nododd eu bod yn teithio o leiaf unwaith bob cwpl o fisoedd gan gerdded ac olwynio, beicio, defnyddio bws, trên, tacsi a char, a phob ymatebydd a oedd wedi

defnyddio trafnidiaeth gymunedol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y gofynnwyd cwestiynau ynghylch bodlonrwydd ar y daith gyffredinol. Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried eu bodlonrwydd cyffredinol ar eu taith ddiweddaraf yn ôl pob dull a ddefnyddiwyd.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon (naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon) ar eu taith gyffredinol. Beicio oedd â'r gyfradd bodlonrwydd isaf (65.7%), tra bod gan dacsi'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr bodlon (88.7%).
- Nododd llai nag 20% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon (naill ai'n anfodlon iawn neu'n gymharol anfodlon) gyda'r daith gyffredinol ar gyfer pob dull teithio.

## Bodlonrwydd cyffredinol ar y daith yn ôl dull teithio

Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon ar y daith gyffredinol ar gyfer pob dull teithio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon ar y daith gyffredinol ar gyfer tacsi, cerdded ac olwynio, bws, car, trên, trafnidiaeth gymunedol a beicio. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y daith gyffredinol ar gyfer tacsi (88.7%), cerdded ac olwynio (85.4%), bws (85.1%) a char (82.9%). Adroddodd ymatebwyr y lefel bodlonrwydd isaf ar gyfer beicio sef 65.7%.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Bodlonrwydd gyda'r daith a'r diogelwch cyffredinol

Nodyn: Nid yw ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

# Bodlonrwydd ar y daith gyffredinol yn ôl demograffeg

- Roedd cyfran yr ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd a oedd yn fodlon neu'n anfodlon ar eu taith gyffredinol yn debyg ar gyfer cerdded ac olwynio, bws a thrên.

- Nododd mwy o ymatebwyr benywaidd (86.2%) eu bod yn fodlon ar eu taith mewn car o'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (80.2%).
- Ar gyfer beicio, nododd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd eu bod yn fodlon (71.7%) nag ymatebwyr benywaidd (53.9%).
- Ar gyfer cerdded ac olwynio, dywedodd 81.4% o ymatebwyr anabl eu bod yn fodlon ar eu taith gyffredinol o'i gymharu ag 88.3% nad oeddent yn anabl.
- Roedd 57.3% o ymatebwyr anabl yn fodlon **ar** eu taith feicio gyffredinol o'i gymharu â 69.8% o'r rhai nad oeddent yn anabl.
- Nododd cyfran y bobl sy'n anabl a'r bobl nad ydynt yn anabl lefelau bodlonrwydd tebyg gyda'u taith gyffredinol ar gyfer car, bws a thrên fel dulliau teithio.


# Bodlonrwydd ar ddiogelwch

Dim ond i ymatebwyr a nododd eu bod yn teithio o leiaf unwaith bob cwpl o fisoedd gan gerdded ac olwynio, beicio, defnyddio bws, trên, tacsi a char y gofynnwyd cwestiynau am fodlonrwydd ar ddiogelwch, ac i bob ymatebydd a oedd wedi defnyddio trafnidiaeth gymunedol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnwyd iddynt ystyried bodlonrwydd ar ddiogelwch ar eu taith ddiweddaraf.

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ddiogelwch, yn amrywio o 59.1% o’r rheini a feiciodd i 91.3% o’r rheini a ddefnyddiodd dacsi.

## Lefelau bodlonrwydd ar ddiogelwch yn ôl dull teithio

Ffigur 3: Canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon ar ddiogelwch ar gyfer pob dull teithio, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon ar ddiogelwch ar gyfer tacsi, bws, trên, car, cerdded ac olwynio, trafnidiaeth

gymunedol a beicio. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn fodlon ar y daith gyffredinol ar gyfer tacsi (91.3%), bws (89.7%), trên (87.8%), car (87.3%) a cherdded ac olwynio (83.4%). Adroddodd ymatebwyr y lefel isaf o fodlonrwydd ar gyfer beicio sef 59.1%.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Bodlonrwydd gyda'r daith a'r diogelwch cyffredinol

Nodyn: Nid yw ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

## Bodlonrwydd ar ddiogelwch yn ôl demograffeg

- Nododd cyfran uwch o ymatebwyr gwrywaidd (66.3%) eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu diogelwch wrth feicio o'i gymharu ag ymatebwyr benywaidd (44.0%). Ar gyfer cerdded ac olwynio, bws, trên a char, nid oedd lefelau cyffredinol o fodlonrwydd ar ddiogelwch yn amrywio'n fawr yn ôl rhyw.
- O blith yr ymatebwyr anabl, dywedodd 79.1% eu bod yn fodlon ar eu diogelwch wrth gerdded a beicio o'i gymharu ag 85.5% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl. Roedd 52.1% o'r ymatebwyr anabl yn fodlon ar eu diogelwch wrth feicio o'i gymharu â 61.2% o'r rhai nad oeddent yn anabl.
- Adroddodd ymatebwyr anabl a rhai nad ydynt yn anabl fodlonrwydd tebyg ar eu diogelwch ar gyfer car, bws a thrên fel dulliau teithio.

## Bodlonrwydd ar y daith gyffredinol o'i gymharu â bodlonrwydd ar ddiogelwch

- Ar gyfer teithiau trên, roedd yr ymatebwyr yn fwy bodlon ar eu diogelwch (87.8%) nag ar eu taith gyffredinol (77.6%)
- Adroddodd yr ymatebwyr y lefelau bodlonrwydd isaf ar draws y daith gyffredinol a diogelwch ar gyfer beicio. Roedd hyn yn 65.7% ar gyfer bodlonrwydd ar y daith gyffredinol a 59.1% ar gyfer bodlonrwydd ar ddiogelwch.


## Teimlo croeso

Dim ond i'r rhai a nododd eu bod yn teithio o leiaf unwaith bob cwpl o fisoedd drwy gerdded ac olwynio, beicio, defnyddio bws, trên a thacsi y gofynnwyd faint o groeso oeddent yn teimlo ai peidio wrth ddefnyddio'r dulliau hyn. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr a ddefnyddiodd gar fel dull teithio.

- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo rhywfaint o groeso neu groeso mawr wrth deithio. Roedd hyn yn amrywio o 67.1% i'r rhai a feiciodd i 94.1% i'r rhai a ddefnyddiodd dacsi.

## Teimlo croeso yn ôl dull teithio

Ffigur 4: Canran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn teimlo croeso ai peidio wrth ddefnyddio dulliau teithio.




Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo croeso ai peidio wrth ddefnyddio tacsi, bws, cerdded ac olwynio, trên, trafnidiaeth gymunedol a beicio. Adroddodd ymatebwyr lefelau uchel o groeso ar gyfer tacsi (94.1%), bws (92.3%), cerdded ac olwynio (91.2%), a thrên (89.9%). Adroddodd ymatebwyr y lefel isaf o groeso ar gyfer beicio sef 67.1%.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Teimlo croeso ai peidio

Nodyn: Nid yw ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

# Fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus


Mae cwestiynau ynghylch fforddiadwyedd tocynnau bws a thrên wedi'u rhannu rhwng y rhai sydd â cherdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol a'r rhai sydd heb un.

- Ar gyfer teithio ar fws, ymhlith unigolion heb gerdyn na phas, dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr eu bod yn gallu fforddio teithio at bob diben (47.0%).
- I'r rhai sydd â cherdyn neu bas teithio ar gyfer bws, roedd gan 70.5% gerdyn neu bas a oedd yn eu galluogi i deithio am ddim ac roedd 13.0% pellach o'r ymatebwyr yn teimlo y gallent fforddio teithio at bob diben wrth ddefnyddio eu pas.
- Ar gyfer teithio ar y trên, nodwyd teimladau tebyg o ran fforddiadwyedd ymhlith pobl sydd â cherdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol a phobl sydd heb un, at bob diben.
- Dywedodd 33.2% o'r ymatebwyr heb gerdyn na phas eu bod yn gallu fforddio teithio ar y trên at bob diben.

- I'r rhai â cherdyn neu bas, roedd gan 13.9% gerdyn neu bas a oedd yn eu galluogi i deithio am ddim ar y rheilffordd, a dywedodd 32.9% eu bod yn gallu fforddio teithio ar y rheilffordd at bob diben.

## Teimlad o fforddiadwyedd wrth deithio ar y trên a'r bws

Ffigur 5: Fforddiadwyedd wrth deithio ar fws a thrên i bobl sydd â cherdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol ac i bobl sydd heb un, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr a nododd a allant fforddio teithio ar fws a thrên ai peidio. Mae'r siart yn dangos y rhai a nododd y gallant fforddio teithio at bob diben gyda cherdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol a'r rhai nad oedd â cherdyn neu bas a nododd na allant fforddio teithio o gwbl gyda cherdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol neu heb un. Ymhlith y rhai heb gerdyn neu bas teithio, dywedodd 47.0% o'r ymatebwyr y gallent fforddio teithio at bob diben ar y bws, tra bod hyn yn 33.2% o'r ymatebwyr ar gyfer teithio ar drên. I'r rhai sydd â cherdyn neu bas teithio ond nad yw'n caniatáu teithio am ddim ar fws na thrên, gallai 13% o'r ymatebwyr fforddio teithio at bob diben ar y bws a 32.9% ar y trên.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: Fforddiadwyedd a bodlonrwydd gydag annibyniaeth ar gyfer teithio ar fws a thrên

Nodyn 1: Nid yw'r ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

Nodyn 2: Dywedodd 33.3% o'r ymatebwyr fod ganddynt gerdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol ar gyfer teithio ar y bws. Dywedodd 19.6% o'r ymatebwyr fod ganddynt gerdyn neu bas teithio rhatach neu ostyngol ar gyfer teithio ar y trên.


# Bodlonrwydd ar y gallu i deithio'n annibynnol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon oeddent ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar drên neu fws, heb gymorth gan staff na theithwyr eraill.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo'n fodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol ar fws (78.3%) a thrên (75.8%).
- Dywedodd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn teithio gan ddefnyddio bws na thrên o'i gymharu â chanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn anfodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol. Dywedodd 10.1% o'r ymatebwyr nad ydynt yn teithio ar fws a dywedodd 5.0% o ddefnyddwyr bysiau eu bod yn anfodlon ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol. Mae hyn yn debyg ar gyfer teithio ar y trên – nid yw 11.1% o'r ymatebwyr yn teithio gan ddefnyddio'r trên ac roedd 5.3% yn anfodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol.
- Mae gwahaniaeth o ran amlder teithio rhwng y rhai sy'n nodi nad ydynt yn defnyddio bws na thrên o gwbl a'r rhai nad ydynt yn teithio gan ddefnyddio bws na thrên. Gallai hyn fod oherwydd bod ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo'n fodlon ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol pan nad ydyn nhw wedi defnyddio bws na thrên yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Bodlonrwydd pobl ar eu gallu i gael mynediad annibynnol at drafnidiaeth gyhoeddus

Ffigur 6: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol ar fws neu drên, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 6: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n fodlon ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws a thrên. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol - 78.3% ar fws a 75.8% ar drên. Nododd 5.0% a 5.3% eu bod yn teimlo'n anfodlon ar eu gallu i deithio'n annibynnol ar fws a thrên yn y drefn honno. A nododd 10.1% ac 11.1% nad ydynt yn teithio gan ddefnyddio bws na thrên yn y drefn honno.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho'r data: [Fforddiadwyedd a bodlonrwydd gydag annibyniaeth ar gyfer teithio ar fws a thrên]

Nodyn: Nid yw ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

# Bodlonrwydd ar y gallu i deithio'n annibynnol yn ôl statws anabledd

- O blith yr ymatebwyr anabl, dywedodd 59.2% eu bod yn fodlon ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws, o'i gymharu ag 87.1% o'r rhai nad oeddent yn anabl.
- Mae hyn yn debyg ar gyfer trên, gyda 55.6% o ymatebwyr anabl yn teimlo'n fodlon ar eu gallu eu hunain i deithio'n annibynnol o'i gymharu ag 85.0% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr anabl nad ydynt yn teithio ar fws (18.5%) na thrên (22.9%) o'i gymharu â chyfran yr ymatebwyr nad ydynt yn anabl. Nid yw 7.6% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn teithio ar fws ac nid yw 7.5% ohonynt yn teithio ar drên.

# Sŵn


Gofynnwyd i bob ymatebydd a oeddent yn cael eu poeni gan sŵn o'r tu allan i'w cartref. Dim ond i'r rhai a atebodd 'ydw' y gofynnwyd am y math o sŵn. Dim ond i'r rhai a ddewisodd sŵn traffig ffyrdd a gwaith adeiladu fel ffynhonnell y sŵn y gofynnwyd cwestiynau penodol am y rhain.

- Dywedodd tua chwarter (26.3%) o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn o'r tu allan i'w cartref.
- Adroddwyd mai traffig ffyrdd oedd ffynhonnell y sŵn i 56.8% o'r ymatebwyr, gyda sŵn gwaith adeiladu yn ffynhonnell i 25.7% o'r ymatebwyr.
- Pan ofynnwyd iddynt am y math o sŵn traffig ffordd a oedd yn eu poeni, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod hyn yn cael ei achosi gan geir (69.6%), ac yna beiciau modur (57.3%) a cherbydau nwyddau trwm neu adeiladu (46.4%).
- O ran y math o sŵn gwaith adeiladu, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd hyn oherwydd gwaith adeiladu ar y rheilffordd na'r rhwydwaith ffyrdd (55.9%).

Roedd ffynhonnell y sŵn a math y sŵn yn gwestiynau aml-ddewis. Felly, efallai na fydd cyfanswm y mathau o sŵn yn cyrraedd 100%.

## Sŵn niwsans yn ôl y math o sŵn

Ffigur 7: Canran yr ymatebwyr sy'n cael eu poeni gan sŵn yn rheolaidd a'r math o sŵn y maent wedi nodi sy'n eu poeni, Cymru, 2025




Disgrifiad o Ffigur 7: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr a oedd yn cael eu poeni yn rheolaidd gan sŵn o'r tu allan i'w cartref (26.3%). O'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn cael eu poeni gan sŵn, disgrifiodd 56.8% y sŵn fel sŵn traffig ffordd, disgrifiodd 25.7% ef fel sŵn adeiladu a disgrifiodd 7.0% ef fel sŵn trenau. Disgrifiodd 29.8% o'r ymatebwyr y sŵn fel math arall o sŵn neu ddim un o'r opsiynau a ddarparwyd gennym.

Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru – Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Lawrlwytho data: Cael eich poeni gan sŵn

Nodyn 1: Nid yw'r ymatebwyr a ddewisodd "Ddim yn gwybod" neu "Mae'n well gen i beidio â dweud" yn cael eu harddangos ar y siart hwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n cyrraedd 100%.

Nodyn 2: Canran y rhai sy'n cael eu poeni gan sŵn yw'r rhai a ymatebodd (3,093 o bobl) tra bod y ganran ar gyfer y math o sŵn allan o'r rhai a nododd eu bod yn cael eu poeni'n rheolaidd gan sŵn.

# Sŵn yn ôl rhanbarth ac amddifadedd

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2025 yn rhestru amddifadedd cymharol ardaloedd bach yng Nghymru. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae safleoedd MALlC wedi'u grwpio'n gwintelau (pum grŵp o'r un maint). Mae gan Gwintel 1 (C1) yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gan Gwintel 5 (C5) yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae MALlC wedi diffinio amddifadedd ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Mae cyfran y bobl sy'n cael eu poeni gan sŵn yn amrywio ar draws rhanbarthau Cymru. Y gyfran uchaf oedd gan drigolion De-ddwyrain Cymru (27.9%). Trigolion Canolbarth Cymru oedd â'r gyfran isaf (21.6%).
- Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl sy'n cael eu poeni gan sŵn yn lleihau wrth i gwintel MALlC 2025 gynyddu. Nododd 37.5% o'r ymatebwyr sy'n byw mewn cod post yn C1 eu bod yn cael eu poeni gan sŵn y tu allan i'w cartref o'i gymharu â 22.9% o'r ymatebwyr sy'n byw mewn cod post yn C5.